# Polisiau Cyfle Cyfartal Cyngor Cymuned Llanegryn

## Datganiad Sylfaenol

1. Bydd Cyngor Llanegryn yn ymrwymo i wrthwynebu hiliaeth, rhywiaeth a phob math o ragfarn sy'n cael ei wynebu gan bobl o leiafrifoedd ethnig, merched, pobl sydd ac anableddau, a chymunedau LGBT/LGBTQ.
2. Bydd Cyngor Cymuned Llanegryn yn gweithio yn erbyn pob rhagfarn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ei ymarferion cyflogaeth ac yn narpariaeth ei wasanaethau.
3. Bydd Cyngor Cymuned Llanegryn yn gofalu y bydd y gwasanaeth mae'n ddarparu yn wirioneddol gyfarfod ac anghenion y gymuned yn y ffordd mwyaf addas.
4. Bydd Cyngor Cymuned Llanegryn yn gweithredu yn gadarnhaol i wneud y polisi yma'n gwbl effeithiol ac yn sicrhau na fydd yr un ymgeisydd am swydd yn derbyn ystyriaeth llai ffafriol ar sail ei hil, rhyw, lliw, cenedligrwydd, cefndir ethnig neu darddiad cenedlaethol, statws priodasol, tueddiadau rhywiol, anabledd neu oedran.
5. Bydd pob cyfundrefn a sefydlir yn sgil yr ymrwymiadau uchod yn cael eu fonitro er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a gwneir newidiadau lle'n addas.